



Cofrestr Risg Cymunedol Gwent

2026-2027



Cynnwys

Cyflwyniad

Cofrestr Risg Cymunedol Gwent (CRCG)

Fforwm Cydnerth Lleol Gwent (FfCLIG)

Proffil o Ardal Gwent

Y Risgiau

Risgiau Cyfredol

Tywydd Garw

Llifogydd

Clefydau Heintus Dynol

Colli Seilwaith Critigol

Damweiniau Diwydiannol

Clefydau Anifeiliaid

Digwyddiadau Trafnidiaeth

Symudiad Tir

Bygythiadau Maleisus

Cyngor i Unigolion, Cymunedau a Busnesau

Paratoi a Chydnerthedd

Paratoi eich Cartref

Paratoi Eich Cymuned

Paratoi eich Busnes

Manylion Cyswllt a Gwybodaeth Bellach

Gwefannau Defnyddiol Eraill

Cyflwyniad



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



Maritime and
Coastguard Agency



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council



monmouthshire
sir fynwy



TORFAEN
COUNTY
BOROUGH
BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cofrestr Risg Cymunedol Gwent (CRCG)

Croeso i'r Gofrestr Risg Gymunedol ar gyfer ardal Fforwm Cydnerth Lleol Gwent.

Mae'r CRCG yn tynnu sylw at y **risgiau** sydd â'r potensial mwyaf i gael **effaith sylweddol** ar drigolion a busnesau yn ardal Gwent.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i'ch hysbysu am y **risgiau hynny a'u canlyniadau posibl**.

Mae'r gofrestr hon hefyd yn darparu gwybodaeth am waith sy'n digwydd yn **ardal Gwent** er mwyn, lle bo'n bosibl, leihau **effaith yr argyfyngau** sy'n digwydd.

Darperir gwybodaeth hefyd i'ch helpu i feddwl **am yr hyn y gallwch ei wneud i baratoi'ch hun**, eich teulu, eich busnes a'ch cymuned yn well er mwyn **lleihau'r effeithiau** o fod mewn **argyfwng**.

Hefyd wedi'u cynnwys yw **cysylltiadau defnyddiol** ar gyfer partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol Gwent a **ffynonellau gwybodaeth eraill**.

Fforwm Cydnerth Lleol Gwent (FfCLIG)

Mae Fforwm Cydnerth Lleol Gwent yn cwmpasu **Ardal Heddlu Gwent** ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Brys, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaethau Iechyd, yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau, Cyfleustodau, y Fyddin a Llywodraeth Cymru, ynghyd â Mudiadau Gwirfoddol ac Asiantaethau Preifat eraill.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y paratodau a'r cynlluniau gorau posibl ar waith i atal, paratoi ar gyfer, ymateb ac adfer argyfyngau mawr a allai gael effaith sylweddol ar y cymunedau yn Ardal Heddlu Gwent.

Er nad yw'r Fforwm Cydnerth Lleol yn gorff statudol, mae'n **broses statudol**, fe'i sefydlwyd fel gofyniad **o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004** ac mae'n brif fecanwaith ar gyfer cydweithio **amlasiantaethol** i sicrhau bod y dyletswyddau a nodwyd yn y ddeddf **yn cael eu cyflawni'n effeithiol**.

Mae'r dyletswyddau fel a ganlyn:

- Asesu'r risg o argyfyngau yn digwydd a defnyddio hyn i **lywio cynllunio wrth gefn**.
- Rhoi **cynlluniau brys** ar waith.
- I roi trefniadau **Rheoli Parhad Busnes** ar waith.
- Trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd **am faterion amddiffyniad sifil** a chynnal trefniadau i **rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd** mewn argyfwng.
- Cydweithio ag **ymatebwyr lleol** eraill i wella'r cydgysylltu a'r effeithlonrwydd;
- Darparu **cyngor a chymorth** i fusnesau lleol a sefydliadau gwirfoddol ynghylch [rheoli parhad busnes](#).

Drwy FfCLI Gwent, mae pob ymatebwr yng Ngwent yn gweithio i set o amcanion cyffredin, sy'n helpu i:

- Achub bywydau.
- Lleddfu dioddefaint.
- Osgoi graddfa'r argyfwng yn dod yn fwy difrifol.
- Diogelu seilwaith ac eiddo.
- Hwyluso ymchwiliad troseddol a phroses farnwrol os oes angen.
- Adfer normalrwydd cyn gynted â phosibl.

Diffiniad o argyfwng

Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil yn **diffinio argyfwng** fel digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth difrod difrifol i'r canlynol:

- **lles dynol**
- yr **amgylchedd** neu
- **ryfel neu derfysgaeth** sy'n bygwth difrod difrifol i ddiogelwch y DU.

Dyletswydd i asesu risg

Man dechrau gwaith FfCLI Gwent yw **deall risg a pharodrwydd**

Mae'r **Ddeddf Argyfyngau Sifil** (DAS) yn ei gwneud yn ofynnol i bob asiantaeth **Ymatebydd Categori 1** megis y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, cyrff y GIG a Chyfoeth Naturiol Cymru asesu'r **risg o argyfyngau'n digwydd**. Yn ogystal, mae gan bob Fforwm Cydnerth Lleol ledled y DU ddyletswydd gyfreithiol i gynhyrchu a chyhoeddi Cofrestr Risg Gymunedol.

Mae'r ystod o risgiau a asesir yn amrywiol a gall fod ar sawl ffurf. Mae rhai o'r rhain yn gyfredol ac mae angen ymateb brys ar unwaith, lle mae gan eraill debygolrwydd o ddigwydd a photensial i gael yr effaith fwyaf ar breswylwyr a busnesau pe baent yn gwneud hynny.

Ni fydd unrhyw asesiad risg byth yn gallu nodi ac asesu pob risg posibl, a gall risgiau anrhagweladwy ddod i'r amlwg, neu gall risgiau a nodwyd yn flaenorol wireddu mewn ffyrdd gwahanol neu annisgwyl.

Diffiniad o risg

Diffinnir risg argyfyngau sifil posibl fel mesur o arwyddocâd **argyfwng posibl** o ran **ei debygolrwydd a'i effaith a aseswyd**.

Pwrpas asesiad risg

Pwrpas y ddyletswydd i gynnal asesiadau risg yw:

- I sicrhau **dealltwriaeth gywir a rennir** o risgiau fel bod gan gynllunio sail gadarn a'i fod **yn gymesur** â'r risgiau.
- I ddarparu sail resymegol ar gyfer **blaenoriaethau rhaglenni gwaith** FfCLI Gwent a'r asiantaethau ymateb, gan gynnwys **meithrin gallu** a phenderfyniadau cysylltiedig o ran **dyrannu adnoddau**.
- Galluogi ymatebwyr i **asesu** digonolrwydd eu **cynlluniau a galluoedd**, gan dynnu sylw at fesurau presennol sy'n briodol, ac yn caniatáu bylchau mewn **parodrwydd** i gael eu hadnabod.

Beth yw Cofrestr Risg Cymunedol Gwent?

Mae **Cofrestr Risg Cymunedol** FfCLI Gwent yn ganlyniad proses a gynhaliwyd gan y Grŵp Gwaith Asesu Risg partner amlasiantaeth, sy'n asesu **tebygolrwydd ac effeithiau** amrywiaeth o beryglon sydd â'r potensial i achosi **aflonyddwch sylweddol** i drigolion, cymunedau ac amgylcheddau Gwent.

Yn ogystal ag asesu peryglon, mae FfCLI Gwent hefyd yn asesu canlyniadau bygythiadau posibl a achosir gan ddigwyddiadau maleisus. Fodd bynnag, mae sensitifrwydd y wybodaeth sy'n ategu'r asesiadau hyn yn golygu na fydd manylion penodol ar gael yn gyhoeddus.

Mae'r Gofrestr Risg Gymunedol hon yn ffurfio un agwedd yn unig ar waith y bartneriaeth wrth baratoi ar gyfer argyfyngau a rhannu gwybodaeth er mwyn cynyddu cadernid cyffredinol ardal Gwent.

Proffil o Ardal Gwent

Mae FfCLI Gwent yn cynnwys yr ardal a gynrychiolir gan **hen sir Gwent** ehangach. Mae'n cyfateb i'r un ardal ddaearyddol â Heddlu Gwent ac fe'i rhennir **yn bum ardal awdurdod unedig** – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae demograffeg ardal FfCLI Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd **cefn gwlad wledig, canolfannau trefol a chymoedd mwyaf dwyreiniol** De Cymru.

Mae'r boblogaeth yn cael ei chynyddu **gan fyfyrwyr prifysgol** yn ogystal â nifer fawr o bobl sy'n ymweld â'r ardal bob blwyddyn **wrth deithio i Loegr neu Orllewin a Chanolbarth Cymru**.



Amcangyfrif poblogaeth Gwent yw 601,686, sef tua 19% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Blaenau Gwent – 67873 **Caerffili** – 176865 **Sir Fynwy** – 94930

Torfaen – 94,119 **Casnewydd** – 167,899

[Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)



Cyfanswm arwynebedd Gwent yw 612 milltir sgwâr, sef tua 8% o gyfanswm arwynebedd Cymru.

Blaenau Gwent – 42 **Caerffili** – 108 **Sir Fynwy** – 340

Torfaen – 49 **Casnewydd** - 73



Cyfrif anheddau Gwent yw tua 272,400, sef tua 18% o gyfanswm nifer yr anheddau yng Nghymru.

Blaenau Gwent – 33100 **Caerffili** – 81000 **Sir Fynwy** – 44300

Torfaen – 43200 **Casnewydd** – 70800

[Llywodraeth Cymru](#)

Mae **Blaenau Gwent** wedi'i ddiffinio'n gorfforol gan lethrau uchel sy'n rhannu ei tri phrif gwm. Mae'r cymoedd hyn yn gartref i **drefi a phentrefi** sy'n rhoi naws brysur, trefol i'r Fwrdeistref Sirol, ond mae Blaenau Gwent mewn gwirionedd **yn wledig i raddau helaeth**. Yn fwy diweddar, mae'r ardal wedi gweld **gwelliant strwythurol ac amgylcheddol** sylweddol, yn dilyn lefelau mawr o fuddsoddiad cyfalaf a gwyrddu ein dyffrynnoedd wrth i **natur** adfer o'r creithiau hirdymor a achoswyd gan ein **diwydiannau hanesyddol**.

Mae **Caerffili** yn cwmpasu ardal sy'n ymestyn o **Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn y Gogledd, i **Gaerdydd a Chasnewydd** yn y De. Fe'i ffurfir gan gymoedd tair afon, Afon Rhymni, Sirhywi ac Ebwy. Mae Caerffili yn gymysgedd o gymunedau trefol a gwledig. Defnyddir tri chwarter y Fwrdeistref Sirol ar gyfer **amaethyddiaeth a choedwigaeth**. Mae pum prif ganolfan sef Caerffili, Coed Duon, Rhisga, Bargod ac Ystrad Mynach. Dyma'r prif ganolfannau ar gyfer **cyflogaeth, manwerthu a darparu gwasanaethau**.

Mae **Sir Fynwy** yn wledig yn bennaf ac mae ganddi **dirwedd amrywiol** yn ymestyn o arfordir Gwastadeddau Gwent yn y De i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y Gogledd. Y prif aneddiadau yw'r Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed, Brynbuga a Magwyr, gyda thua hanner cyfanswm y boblogaeth yn byw mewn **ardaloedd trefol**. Mae **patrwm anheddu nodedig** Sir Fynwy yn deillio **o'i threfi marchnad a'i phentrefi** a'u perthynas â'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Dinas **Casnewydd** yw'r drydedd ganolfan drefol fwyaf yng Nghymru. Wedi'i leoli o amgylch glannau Afon Wysg ac aber afon Hafren, mae'n **ddinas amlddiwylliannol**, lle mae diwydiannau traddodiadol yn eistedd ochr yn ochr â **sectorau electroneg a gwasanaethau ariannol newydd**. Mae'n dirwedd isel i raddau helaeth, gydag ychydig o ardaloedd bryniog ac mae'n cynnwys ardaloedd gwledig helaeth o amgylch y craidd adeiledig. Rhoddwyd **statws dinas** i Gasnewydd yn 2002, cynhaliwyd y **Cwpan Ryder** yno yn 2010 a dyma'r lleoliad ar gyfer uwchgynhadledd **NATO** yn 2014.

Mae **Torfaen** yn rhedeg o **Flaenau'r Cymoedd** yn y Gogledd i goridor yr M4 yn y De gyda thri phrif anheddiad; Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân - sy'n unigryw o ran bod **yr unig Dref Newydd yng Nghymru**, a ddynodwyd felly ym 1949. Mae ardal ogleddol y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys **Tref Safle Treftadaeth y Byd** Blaenafon, sydd â'r **gweithfeydd haearn o'r 18fed ganrif sydd wedi'i gadw orau yn Ewrop**. Mae llawer o rannau deheuol y Fwrdeistref Sirol wedi'u trefoli o amgylch Cwmbrân, sydd â'r boblogaeth fwyaf.

Y Risgiau

Wedi'u cynnwys yn y **Gofrestr Risg Cymunedol** hon yw'r **risgiau** hynny yr ystyrir bod ganddynt y **tebygolrwydd a'r potensial uchaf** o gael **effaith sylweddol** ar **gymunedau Gwent**.



Risgiau Cyfredol

Dros gyfnod y gaeaf diwethaf ac yn barod yn **2026**, rydym wedi profi'r effeithiau o **nifer** o'r risgiau y cyfeirir atynt **yn y ddogfen hon**.

Mae'r digwyddiadau storm arwyddocaol fel **Storm Claudia** wedi achosi dinistr i rannau helaeth o'n cymunedau, gyda nifer ohonynt yn parhau i adfer o'r effeithiau.

Rydym wedi bod yn dyst i nifer o **danau diwydiannol** sy'n gofyn am gamau gweithredu ar unwaith gan drigolion, a'r effeithiau ar fusnesau.

Yn unigol, gall y mathau hyn a'r mathau eraill o argyfyngau rydym wedi'u profi ar draws Gwent, fod yn wahanol iawn, ond pan fyddant yn digwydd ar yr un pryd, mae'n achosi **effeithiau cronus sylweddol**.

Wrth i ni symud i mewn i **gyfnod yr haf**, mae potensial i risgiau eraill gyflwyno effeithiau i'n cymunedau a'n hamgylchedd y mae angen i ni fod yn ymwybodol ac yn barod ar eu cyfer. Gall y rhain gynnwys **tanau gwyllt**, effeithiau ar iechyd a lles unigolyn a seilwaith critigol oherwydd **tymheredd uchel** ac effeithiau **costau byw** parhaus oherwydd digwyddiadau rhyngwladol.

Trosolwg o'r Risgiau



Gall **Tywydd Garw** ddod mewn ffurfiau amrywiol: o **wyntoedd cryfion a stormydd**, eira trwm a dwfn, **tymereddau rhewllyd** a hyd yn oed **tonnau gwres yr haf** a all bara am gyfnodau hir.



Mae **Llifogydd** yn parhau i fod yn un o'r risgiau uchaf a mwyaf **rheolaidd** yn ardal Gwent, ac mae miloedd o **gartrefi a busnesau** ledled y rhanbarth a allai gael **eu heffeithio**.



Clefydau Heintus Dynol yw afiechydon sy'n **lledaenu rhwng pobl**. Gall rhai clefydau heintus ledaenu'n haws neu gael mwy o effaith ar gymunedau. Mewn nifer fach o achosion, gall achosion waethygu i effeithio **ar sawl rhanbarth neu wlad**.



Mae **Colli Seilwaith Hanfodol (SH)** yn disgrifio'r holl **wasanaethau** gwahanol yr ydym yn dibynnu arnynt fel rhan o'n **cymdeithas fodern** ac mae'n hanfodol i sut rydym yn rhedeg ein **bywydau beunyddiol**.



Damweiniau Diwydiannol mae yna **sawl diwydiant** yn ardal Gwent sy'n storio neu'n defnyddio **sylweddau a allai fod yn beryglus** a allai gael **effaith ar bobl a'r amgylchedd** pe bai damwain yn digwydd.



Clefydau Anifeiliaid sy'n cyflwyno'r **risg fwyaf** yw'r rhai sy'n **heintus iawn** ac sy'n achosi cyfraddau **marwolaethau uchel ymhlith da byw**.



Gall **Digwyddiadau Trafnidiaeth** megis damweiniau, sy'n deillio o dywydd garw neu ddifrod strwythurol i seilwaith trafndiaeth cael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni gweithgareddau dyddiol er enghraifft **cyrraedd gwaith a dychwelyd oddi yno**, gwneud **teithiau pwysig** neu **dderbyn gwasanaethau hanfodol**.



Symudiad Tir yw **symudiad sylweddol o ddeunydd** fel creigiau, pridd neu falurion. Gallant ddigwydd **yn sydyn** neu **symud yn araf dros gyfnodau hir o amser**. Mae rhanbarth De Cymru a Gwent yn cynnwys y rhan fwyaf o **faes glo De Cymru**, dyma le mae'r rhan fwyaf o'r **cymunedau mwyngloddio** wedi'u hadeiladu, gan adael **datblygiadau trefol mawr yn y Cymoedd** sy'n parhau heddiw.



Bygythiadau Maleisus. Er bod y tebygolrwydd o **ymosodiadau maleisus** yn digwydd **yn brin**, mae **ymdrechion bwriadol** i amharu ar ein ffordd o fyw yn cael eu gwireddu yn rhy aml yn y gymdeithas heddiw.

Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- Fel FfCLI, mae ein holl bartneriaid yn gweithio ar y cyd i gefnogi, lle bo'n bosibl, y galw cynyddol a'r heriau y mae'r risgiau hyn yn eu cyflwyno, er mwyn osgoi effaith ar **wasanaethau critigol** ac i **leihau aflonyddwch ar y gymuned**.
- Trwy'r strwythurau FfCLI sefydledig, rydym yn **cydweithio** i sicrhau bod **ymwybyddiaeth sefyllfa** ar y cyd am y risgiau a'u heffeithiau.
- Rydym yn **datblygu** ac yn **rhannu negeseuon cyhoeddus allweddol** fel bod ein cymunedau yn cael eu cadw'n **hysbys** o'r risgiau cyfredol ac rydym yn darparu **cyngor priodol**.
- Rydym yn parhau i **gynnal, profi ac ymarfer** ein cynlluniau a gweithdrefnau amlasiantaeth a sefydliad unigol felly rydym **mor barod** â phosibl i **ymateb** i ddigwyddiadau ac **adfer** ar ôl digwyddiadau.



Beth allwch CHI wneud

Er ei fod yn ffaith bywyd anochel bod argyfyngau'n digwydd, gallwn ni gyd chwarae rhan wrth helpu ein hunain, ein teuluoedd a'n busnesau i fod wedi paratoi'n well ar gyfer y canlyniadau. Mae yna nifer o bethau cychwynnol y gallwch eu gwneud gan gynnwys:

- Creu Cynllun Cartref a pharatoi Bag Argyfwng.
- Cadwch yn hysbys drwy gofrestru ar gyfer rhybuddion tywydd a llifogydd lleol (e.e. y Swyddfa Dywydd neu Gyfoeth Naturiol Cymru).
- Gwybod sut i ddiogelu eich cartref. Er enghraifft, sut ydych chi'n diffodd eich prif gyflenwad nwy, trydan a dŵr. Cofiwch brofi larymau mwg bob mis.
- Gwiriwch a ydych yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth gyda'ch cyflenwyr cyfleustodau am gymorth ychwanegol yn ystod toriadau cyfleustodau.
- Paratowch eich cerbyd gyda phecyn car gyda thortsh, gwefrydd ffôn, dillad / blancedi cynnes, ac eitemau hanfodol.
- Cadwch olwg am deulu, ffrindiau a chymdogion sy'n arbennig o agored i niwed.
- Os ydych yn berchennog busnes, datblygwch a phrofwch eich cynllun parhad busnes yn rheolaidd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran ['Cyngor i Unigolion, Cymunedau a Busnesau'](#) o'r gofrestr risg hon.

Tywydd Garw



Gall tywydd garw ddod mewn gwahanol ffurfiau: o **wyntoedd a stormydd**, trwm ac **eira** dwfn, **tymheredd rhewi** a hyd yn oed **tonnau gwres haf** a all bara am gyfnodau hir.

Dros y blynyddoedd nesaf, rydym yn debygol o weld **tymheredd yn cynyddu**, lefelau'r môr yn codi a chynnydd yn **amlder a difrifoldeb** digwyddiadau tywydd eithafol yn y DU. Gall rhagolygon y tywydd nawr roi **rhybudd** o'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau a chynnig cyngor cyffredinol.

Canlyniadau Posibl

- **Tarfu** ar drafnidiaeth, cyfleustodau a chyfathrebu.
- Pobl sy'n agored i niwed **yn dioddef** tymheredd isel sy'n peryglu eu hiechyd.
- Perygl i fywyd o wrthrychau sy'n agored i'r gwynt a **methiannau strwythurol**.
- Adeiladau ysgol a chyhoeddus **ar gau**.
- **Difrod** i eiddo a seilwaith
- Gall busnesau a gwasanaethau cael eu gorfodi i gau neu **atal** eu gwaith
- Effaith ar ardaloedd gwledig, **da byw** a chymunedau ynysig.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- Cynnal cynlluniau amlasiantaeth a sefydliadau unigol ar gyfer **ymateb** i ddigwyddiadau tywydd garw a lleihau aflonyddwch.
- **Gweithio gyda'n gilydd** i barhau â gwasanaethau hanfodol a lleihau aflonyddwch.
- Monitro rhagolygon y tywydd er mwyn darparu **cyngor ac arweiniad**.
- Gweithredu **cynllunio dros y gaeaf** e.e. graeanu, clirio eira ac ati.
- Ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu [cydnerthedd cymunedol](#).
- **Targedu cymorth** at yr aelodau o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.

Beth allwch CHI wneud

- Peidiwch â theithio oni bai fod eich taith **yn gwbl angenrheidiol**. Os oes angen i chi deithio, **cynlluniwch** o flaen llaw a chariwch fwyd/dillad/blanced argyfwng ac ati
- Gwiriwch a **gwrandewch** [ar ragolygon y tywydd](#).
- Ystyriwch a chynlluniwch sut y byddech yn ymdopi **heb gyfleustodau hanfodol** e.e. trydan neu ddŵr
- **Gwiriwch** gyda pherthnasau a ffrindiau oedrannus neu sy'n agored i niwed.
- Gwisgwch **ddillad priodol** ac arhoswch **wedi'ch hydradu**.
- Sicrhewch fod gennych **yswiriant digonol**.

Llifogydd



Gall llifogydd darddu o **wahanol ffynonellau**, gan gynnwys dŵr **afonydd**, yr arfordir ac **arwyneb**.

Dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debyg **y bydd tymheredd y môr yn codi** ac mae cynnydd yn **amlder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol** yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd yn y DU.

Canlyniadau Posibl

- **Llifogydd** yn effeithio ar gartrefi a busnesau
- **Perygl i fywyd**, pobl, ac anifeiliaid.
- **Difrod i eiddo**, busnesau, **tir amaethyddol**, ffyrdd, **gwasanaethau** a seilwaith.
- Ymgiliad y preswylwyr a/neu **breswylwyr yn cael eu hynysu**.
- Effeithiau ar argaeledd **gwasanaethau critigol**.
- **Tarfu ar gyfleustodau** a thrafnidiaeth.
- Llygredd a **halogiad** o'r amgylchedd lleol.
- Materion **adfer** ac **achub** hirdymor i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- **Cynnal, profi ac ymarfer** cynlluniau sefydliadol amlasiantaethol a threfniadaeth unigol ar gyfer **ymateb** i achosion o lifogydd
- **Monitro llifogydd**, rhagolygon, cyhoeddi rhybuddion llifogydd a **rhybuddio'r cyhoedd** cyn gynted â phosibl pan fo perygl o lifogydd.
- **Nodi ardaloedd** a allai gael ei effeithio gan ddŵr llifogydd i **leihau aflonyddwch**, a phwy allai fod mewn perygl.
- **Cynllunio strategol** i ddiogelu ardaloedd risg.
- **Archwilio a chynnal a chadw** ceuffosydd a gyliau'n rheolaidd.
- Rhoi **cyngor ac arweiniad** am lifogydd.

Beth allwch CHI wneud

- **Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr llifogydd** oni bai bod y gwasanaethau brys yn eich cyfarwyddo i wneud hynny. Gall dŵr llifogydd fod yn hynod beryglus a gall guddio peryglon.
- **Ymchwiliwch** a ydych yn byw neu'n gweithio mewn **ardal sydd mewn perygl o lifogydd** [a chofrestrwch](#) i dderbyn **rhybuddion llifogydd** am ddim.
- Cadwch yn hysbys [am ragolygon y tywydd](#).
- **Cynlluniwch** am sut y byddech yn **diogelu** eich eiddo yn ystod llifogydd a sicrhewch eich bod ag **yswariant digonol**.
- Paratowch Gynllun [Argyfwng Cartref](#) neu **Gynllun Llifogydd Personol**.
- **Nodwch unrhyw gymdogion**, perthnasau neu ffrindiau sy'n agored i niwed a allai fod angen cymorth, a gwiriwch a oes **grŵp llifogydd cymunedol** yn eich ardal chi.

Clefydau Heintus Dynol



Clefydau heintus dynol **yw afiechydon sy'n lledaenu rhwng pobl**. Mae llawer o achosion o glefydau heintus yng Nghymru yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy sefydlu **mesurau iechyd cyhoeddus** megis brechu, profi a rheoli heintiau.

Achosion o Glefydau Heintus

Mae achosion yn digwydd pan fydd haint yn lledaenu o fewn cymuned, rhanbarth neu wlad. Gall achosion ddigwydd oherwydd heintiau adnabyddus (e.e. salmonela neu ffliw neu anaml oherwydd clefydau heintus difrifol sydd â chanlyniadau uchel (gelwir y rhain yn HCIDs) sydd angen gofal arbenigol. Er y gall y raddfa a'r effaith fod yn wahanol, mae'r rhan fwyaf o achosion fel arfer yn cael eu rheoli trwy weithredu iechyd cyhoeddus cydgysylltiedig ac ymdrechion cyfunol partneriaid lleol.

Canlyniadau Posibl.

- Gall meddygfeydd ac ysbytai **fod yn brysurach**.
- Efallai y bydd tarfu ar **ysgolion, meithrinfeydd, neu weithleoedd**.
- Efallai y bydd rhai pobl, fel oedolion hŷn neu'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor, dan **risg uwch**.
- Gall absenoldeb staff **effeithio** ar wasanaethau cyhoeddus.
- Efallai y byddwch yn sylwi ar fwy o **negeseuon** iechyd y cyhoedd.
- Efallai y gofynnir i bobl a allai fod wedi bod yn agored i glefyd aros i ffwrdd o leoliadau cyhoeddus (gelwir hyn yn **waharddiad**).

Pandemigau

Mae pandemig yn cael ei ddiffinio gan Sefydliad Iechyd y Byd (sef yr WHO) fel **"Epidemig sy'n digwydd ledled y byd, neu dros ardal eang iawn, sy'n croesi ffiniau rhyngwladol ac fel arfer yn effeithio ar nifer fawr o bobl."**

Nid yw pandemig yn cael ei ddiffinio gan ddifrifoldeb clefyd, lefelau imiwneidd yn y boblogaeth na'r math o bathogen. Nid ydynt wedi'u cyfyngu ychwaith i'r ffliw, oherwydd gall clefydau newydd neu sy'n dod i'r amlwg a achosir gan **firysau, bacteria ac organebau eraill** hefyd fod â photensial pandemig.

Pethau allweddol i'w gwybod am bandemig yw:

- Mae'r organeb heintus yn **fel arfer yn newydd**, felly nid oes gan y rhan fwyaf o bobl fawr ddim imiwneidd.
- Efallai y bydd yn gallu **lledaenu'n gyflym** ac yn eang.
- Gall ddod mewn tonnau, sy'n golygu y gall aflonyddwch ddigwydd **fwy nag unwaith**.
- **Nid yw pandemigau bob amser yn ddifrifol** gan fod y term yn cyfeirio at ledaeniad, nid perygl.
- Efallai y bydd **nifer gyfyngedig** o frechiadau neu feddyginiaethau ar gael, neu ddim o gwbl.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent



- **Dylid diweddarau'n rheolaidd** cynlluniau traws-bartner fel bod pob asiantaeth gan gynnwys Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Brys ac eraill yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- **Dod â sefydliadau at ei gilydd** er mwyn cytuno ar sut rydym yn atal, canfod a rheoli achosion, gan sicrhau dull unedig.
- Gweithredu **ymarferion rheolaidd i brofi ein cynlluniau**, cryfhau cydgysylltu, a nodi gwelliannau cyn i achosion neu bandemig ddigwydd.
- **Cydlynu cefnogaeth** ar draws partneriaid i helpu gwasanaethau hanfodol i weithredu'n ddiogel.
- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliadau'r GIG i sicrhau bod **brechlynnau newydd yn cael eu cyflenwi'n amserol ac yn ddiogel** yn ystod achosion neu bandemigau.
- **Cydweithio** gyda phartneriaid dibynadwy er mwyn **rhannu canllawiau** sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gyson ac yn hawdd ei ddeall, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ansicrwydd.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i **ddelio â marwolaethau** yn ddiogel, yn barchus, ac mewn ffordd gydgysylltiedig.

Beth allwch CHI wneud

Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau gwneud y **peth iawn**, a gall camau bach wneud **gwahaniaeth mawr** yn ystod unrhyw achosion o glefydau heintus neu bandemig. Mae'r camau hyn yn **syml, ymarferol**, ac wedi'i gynllunio i'ch helpu i amddiffyn eich hun, eich teulu, a'ch cymuned.

- **Dilyn y cyngor** oddi wrth [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yw'r ffyrdd gorau o amddiffyn eich hun ac eraill. Mae'r sefydliadau hyn yn monitro risgiau clefydau heintus bob dydd ac yn darparu'r cyngor mwyaf dibynadwy, diweddaraf.
- Mae cadw'ch brechiadau yn gyfredol yn eich amddiffyn rhag mynd yn ddifrifol sâl o rai pathogenau ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau Iechyd Lleol (rhywbeth sydd o fudd i bawb). Os ydych yn gymwys, mae cael eich **brechlyn fflw tymhorol** bob blwyddyn hefyd yn ychwanegu haen ychwanegol o amddiffyniad.
- Mae hylendid da yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd symlaf a mwyaf effeithiol o leihau lledaeniad salwch. Mae **golchi eich dwylo'n rheolaidd**, gorchuddio peswch a thisian, a gwaredu hancesi papur yn iawn i gyd yn helpu i atal heintiau rhag symud trwy aelwydydd, ysgolion a gweithleoedd.
- Os ydych yn teimlo'n sâl, **arhoswch gartref** ac **osgowch gyswllt** gyda phobl a allai fod yn fwy agored i niwed oherwydd fe fydd hyn yn helpu i leihau'r risg o ledaenu salwch ymhellach. Gall gwirio beth mae eich cynlluniau gweithle neu ysgol yn ei wneud yn ystod achosion hefyd eich helpu i baratoi.
- Yn olaf, gall gael **cynllun cymorth personol bach** wneud pethau'n haws os ydych yn sâl yn sydyn. Er enghraifft, gwybod pwy allai gasglu meddyginiaeth neu gyflenwadau hanfodol ar eich rhan os oes angen.

Colli Seilwaith Critigol



Mae seilwaith allweddol y DU yn cynnwys gwasanaethau fel **trydan**, dŵr, **nwy**, olew, **tanwydd**, trafndiaeth, **cyfathrebu**, bwyd, **iechyd** a gwasanaethau ariannol.

Mae'r risg o golli seilwaith critigol yn debygol o fod yn ddigwyddiad heb ei gynllunio a gallai ddigwydd heb rybudd, gan gynyddu'r effeithiau dilynol. Yn ardal Gwent rydym yr un mor ddibynnol ar y gwasanaethau hanfodol hyn ag y mae ardaloedd eraill, a gall hyd yn oed **colli lleol** gael **effaith sylweddol** ar ein trigolion.

Canlyniadau Posibl

- Tarfu ar wasanaethau, busnesau a **bywyd cartref**.
- **Glanweithdra gwael** a diffyg dŵr yfed.
- Gallu cyfyngedig i **wresogi eich cartref**, a chael bwyd a dŵr.
- Gallu cyfyngedig i gadw **bwyd yn oer** neu wedi rhewi.
- **Mwy o risg** i bobl agored i niwed.
- Dim gallu i gael tanwydd **o orsafoedd petrol**.
- Tarfu ar gyflawni **gwasanaethau critigol**.
- Pobl yn methu cael arian **o beiriannau arian parod** neu brynu **gan ddefnyddio cardiau**.
- Telathrebu cyfyngedig (gan gynnwys **ffonau symudol**).
- **Aflonyddwch sifil**.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- Gweithio gyda chwmnïau cyfleustodau i **ddelio ag ymyrraeth ar gyflenwadau** lle bo hynny'n bosibl
- **Datblygu cynlluniau amlasiantaeth** er mwyn rheoli a lliniaru toriadau tymor hwy i wasanaethau, **gan gynnwys trefniadau parhad busnes**.
- Nodi pobl sy'n agored i niwed a fydd angen **cymorth ychwanegol** os bydd cyfleustodau'n cael eu torri.

Beth allwch CHI wneud

- Gwybod ble mae'r **pwyntiau diffodd** ar gyfer eich cyfleustodau a sut i'w diffodd.
- Cadwch nodyn **o fanylion cyswllt** eich cwmnïau cyfleustodau.
- Rhowch [Becyn a Chynllun Argyfwng Cartref](#) at ei gilydd i feddwl am sut y byddech yn **delio â sefyllfa** heb y cyfleustodau allweddol.
- Am gyngor ynglŷn â pharatoi ar gyfer **toriadau pŵer** a beth i'w wneud, ewch i wefan [cyngor ar doriadau pŵer](#).
- Am gyngor ar **argyfyngau nwy**, ewch i wefan [argyfyngau nwy](#).
- Mae'r **Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth** yn darparu cymorth ychwanegol a chefnogaeth ychwanegol yn ystod toriad pŵer i bobl oedrannus, sâl iawn neu anabl, neu'r rhai sy'n dibynnu ar bŵer ar gyfer offer meddygol. Cofrestrwch yma: [Gwasanaethau Blaenoriaeth](#).
- **Gwiriwch eich cymdogion** a pherthnasau a allai fod yn agored i niwed i weld a oes unrhyw beth y mae arnynt eu hangen.

Damweiniau Diwydiannol



Fodd bynnag, nid yw'r potensial ar gyfer **effaith fawr** bob amser yn dod o ddamweiniau mewn safleoedd diwydiannol mawr.

Os yw **tân** yn cynnwys silindrau asetylen fel sydd mewn llawer o garejys, gweithdai ac ati, efallai y bydd **gweithdrefnau ymateb** yn gofyn bod **parth perygl** yn cael ei osod a gall unrhyw un sy'n byw yn y parth hwn gael **eu hymgilio** nes ei bod yn ddiogel iddynt ddychwelyd.

Canlyniadau Posibl

- **Perygl** i fywyd.
- Problemau **iechyd cyhoeddus**.
- **Difrod** i eiddo a'r ardal leol.
- Llygredd i'r **amgylchedd lleol**.
- Yr angen i **ymgilio pobl** o'r ardal yr effeithiwyd arni o bosibl.
- Tarfu **ar gyfleustodau a chyflenwadau** lleol a chenedlaethol
- **Colledion economaidd** yn lleol ac ar gyfer y diwydiant.
- Effaith andwyol bosibl ar ffermio **a chynnyrch amaethyddol** lleol.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- Gweithio'n uniongyrchol gyda gweithredwyr safleoedd sy'n rheoli safleoedd Rheoli Perygl Damweiniau Mawr (**COMAH**) a gweithio mewn **partneriaeth** i gynhyrchu **cynlluniau argyfwng** COMAH oddi ar y safle.
- Datblygu ac ymarfer **cynlluniau amlasiantaeth** er mwyn sicrhau **ymateb effeithiol** a rheoli **canlyniadau** damweiniau diwydiannol.
- Cynnal **archwiliadau diogelwch tân** a gweithio gyda safleoedd diwydiannol i **leihau'r risg** y bydd damwain yn digwydd.
- Adnabod ffyrdd a dulliau o gyfathrebu â'r cyhoedd a **rhoi cyngor priodol**.

Beth allwch CHI wneud

- **Byddwch yn ymwybodol** os ydych yn byw ger safle peryglus a [gwiriwch](#) i weld a ydych yn byw ger safle rheoledig.
- Os byddwch yn clywed **rhybudd o ddamwain**, ewch i mewn, caewch eich drysau a'ch ffenestri i gyd a thiwnio i mewn i orsafoedd radio lleol neu **dilynwch y cyfryngau cymdeithasol** am gyngor.
- **Cyfyngu ar weithgarwch awyr agored** ac ewch allan dim ond os yw'n hollol hanfodol.
- Paratowch ar gyfer ymgiliad posibl trwy greu [bag argyfwng](#) o bethau y gallai fod eu hangen arnoch os gofynnir i chi adael eich cartref.
- Os cewch eich ymgilio, **gwrandewch ar a dilynwch y cyfarwyddiadau** a roddir.

Clefydau Anifeiliaid



Mae yna glefydau anifeiliaid sydd â'r potensial i ledaenu o **anifeiliaid i bobl**, gan achosi **salwch neu farwolaethau**.

Mae profiad yn dangos y gall clefydau anifeiliaid gael **canlyniadau difrifol i'r diwydiant ffermio** yn ardal Gwent.

Gall **cyfyngiadau symud a theithio** a gyflwynir i leihau lledaeniad clefyd **niweidio diwydiant gwledig** a'r economi ehangach.

Canlyniadau Posibl

- Y risg i **iechyd anifeiliaid**.
- **Risgiau iechyd** i bobl, yn enwedig gweithwyr yn y diwydiant da byw.
- Difrod i'r **economi amaethyddol** leol.
- **Difa/gwaredu** carcasau anifeiliaid ar raddfa fawr
- Colli **bywoliaeth** i ffermwyr a gweithwyr fferm
- Effaith ar **dwristiaeth** a diwydiannau gwasanaeth eraill
- Effeithiau **iechyd seicolegol** hirdymor.
- Cynnydd posibl mewn **costau bwyd** i ddefnyddwyr.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- Mae awdurdodau lleol a gwasanaethau milfeddygol yn **sgrinio ac yn monitro'n barhaus** iechyd anifeiliaid a symud da byw.
- Datblygu gweithdrefnau ar gyfer darparu **cynlluniau clefydau anifeiliaid** egsotig Llywodraeth Cymru a **fframweithiau** iechyd anifeiliaid yn lleol.
- Codi **ymwybyddiaeth o glefydau** ymhlith gweithwyr fferm.
- Derbyn a monitro **rhybuddion clefydau anifeiliaid** yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Beth allwch CHI wneud

- Mae perchnogion yn gyfrifol am iechyd a lles da byw yn eu gofal ac i ddarparu ar gyfer **eu hanghenion a lles corfforol**.
- Cynnal arferion da o ran **atal a rheoli clefydau**.
- Cyn gynted â phosibl, dylid **adrodd** am unrhyw amheuaeth o glefyd anifeiliaid gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. **Trafodwch** unrhyw bryderon gyda'ch milfeddyg.
- **Brechwch** eich da byw lle bo'n bosibl.
- Os caiff achos ei ddatgan, **dilynwch unrhyw ganllawiau** gan y Llywodraeth i ddiogelu'ch anifeiliaid ac i **gyfyngu ar ledaeniad y clefyd**.
- **Cofrestrwch unrhyw anifeiliaid** rydych yn berchen arnynt gyda Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Digwyddiadau Trafnidiaeth



Felly, pan fydd tarfu ar dtrafnidiaeth yn digwydd mae'r canlyniadau'n **bellgyrhaeddol** a gall hyd yn oed **beryllu bywyd**.

Gall unrhyw darfu fod yn ganlyniad i **ddamweiniau**, **tywydd garw** megis eira neu lifogydd, **difrod strwythurol** i'r **seilwaith trafniadaeth** megis **pontydd** a **thwneli** neu **weithredu diwydiannol**.

Canlyniadau Posibl

- Gwasanaethau trafniadaeth **wedi'u gohirio** neu eu **canslo**.
- Pobl **yn cael eu gadael**, mewn cerbydau neu mewn canolfannau cludiant.
- **Risg i fywyd**.
- Sgîl-ffeithiau difrifol ar lwybrau dargyfeiriol a **rhwydweithiau trafniadaeth lleol**.
- Methu cyrraedd y gwaith, yr ysgol neu **apwyntiadau**.
- Busnesau/gwasanaethau yn dioddef effaith andwyol o ganlyniad i **ddosbarthiad gohiriedig** neu **wedi methu**.
- Effeithiau **amgylcheddol** os caiff deunyddiau peryglus eu gollwng i'r amgylchedd lleol.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- **Datblygu ac ymarfer** cynlluniau amlasiantaeth i reoli canlyniadau digwyddiadau a tharfu o ran trafniadaeth.
- Mae pob asiantaeth briffyrdd berthnasol **yn cydweithio** i gadw **pob ffordd fawr ar agor** ac yn hygyrch yn ystod cyfnodau o darfu.
- Gweithio gyda chwmnïau trafniadaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i **ofalu am bobl** yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau.
- **Darparu gwybodaeth** i'r cyhoedd yn ystod cyfnodau o darfu.
- [Monitro rhagolygon y tywydd](#) i sicrhau ein bod **yn barod** i ddelio ag unrhyw darfu posibl sy'n gysylltiedig â'r tywydd.

Beth allwch CHI wneud

- Cyn dechrau ar eich taith, edrychwch i weld a oes unrhyw darfu a **gwnewch drefniadau eraill** os oes angen. **Osgowch deithiau diangen** mewn tywydd garw.
- Cadwch [becyn argyfwng](#) yn eich car neu eitemau sylfaenol pan fyddwch yn teithio. Efallai na fyddwch yn ymwneud yn uniongyrchol â'r digwyddiad ond gallai'r aflonyddwch bara am oriau.
- [Cadwch at reolau'r](#) ffordd a gyrrwch yn ddiogel. Ymglyfarwyddwch â **threfniadau argyfwng** trafniadaeth gyhoeddus.
- Sicrhewch fod eich cerbyd yn cael ei gadw **mewn cyflwr da a diogel**.

Symudiad Tir



Mae symudiad tir gan lethrau **naturiol** ac **anthropogenig** y potensial i achosi aflonyddwch a difrod sylweddol, a cholled bywydau.

Mae symudiad tir (sef **tirlithriad** fel y'i gelwir yn fwy cyffredin) yn **symudiad mawr o ddeunydd**, fel craig, pridd neu falurion, i lawr llethr bryn neu glogwyn. Gallant **ddigwydd yn sydyn neu'n symud yn araf dros gyfnodau hir o amser**.

Canlyniadau Posibl

- **Perygl i fywyd**, pobl ac anifeiliaid
- **Difrod** i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, ffyrdd, gwasanaethau a seilwaith.
- Tarfu ar **wasanaethau critigol**.
- Ymgiliad y preswylwyr a/neu **breswylwyr yn cael eu hynysu**.
- **Llifogydd** oherwydd malurion yn cronni mewn afonydd a dyfrffosydd.
- **Tarfu** ar gyfleustodau a thrafnidiaeth.
- Llygredd a **halogiad** o'r amgylchedd lleol.
- Materion **adfer ac achub** hirdymor i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- Mae awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Adfer Mwyngloddio, yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen o **arolygu, cynnal a chadw a rheoli gwell safleoedd tomenni glo segur ledled Cymru**.
- Bydd **Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru)** yn sefydlu Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru ym mis Ebrill 2027. Bydd y corff cyhoeddus newydd hwn yn gyfrifol am wirio, cofnodi a monitro tomenni nas defnyddir yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu **rheoli'n iawn**.

Beth allwch CHI wneud

- Ystyriwch sut y gallwch chi **ddiogelu eich eiddo** a bod ag yswiriant digonol.
- [Darganfyddwch](#) os ydych yn **byw neu'n gweithio mewn ardal** a allai gael ei effeithio gan symudiad tir.
- Cadwch i fyny â'r wybodaeth ddiweddaraf [am rybuddion tywydd](#) a **Diweddariadau Diogelwch** gan gyngor lleol.
- Paratowch [Becyn a Chynllun Argyfwng Cartref](#).
- Os yw'n ddiogel gwneud hynny, gwiriwch unrhyw gymdogion, perthnasau neu ffrindiau **sy'n agored i niwed** a allai fod angen cymorth.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [Diogelwch tomenni glo](#) a [Thirlithriadau](#).

Bygythiadau Maleisus




Bygythiadau maleisus yw'r grwpiau hynny o risgiau sy'n cynnwys gweithredoedd fel **terfysgaeth a throseddau cyfundrefnol** a chânt eu casglu o dan themâu fel **ymosodiadau ar lefydd gorlawn, trafndiaeth, seilwaith critigol ac ymosodiadau seibr**.

Gyda lefel y bygythiad presennol i'r DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) o derfysgaeth yn cael ei nodi fel **DIFRIFOL**, cadwch yn hysbys o'r [cyngor](#), canllawiau ac **ymgyrchoedd cyhoeddus cyfredol** sydd ar gael.

Canlyniadau Posibl

- **Marwolaethau** ac anafusiadau **corfforol/seicolegol**.
- **Difrod** i eiddo a seilwaith.
- **Tarfu** ar seilwaith a gwasanaethau hanfodol a **phwysau ychwanegol** ar y sefydliadau sy'n ymateb.
- **Ymgilio** a llochesu yn yr ardal yr effeithir arno.
- Tarfu ar **yr economi** genedlaethol a lleol.
- Colli **gwybodaeth bersonol** neu **gorfforaethol**.
- Materion **adfer ac achub** hirdymor i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.



Yr hyn YR YDYM NI'N ei wneud yng Ngwent

- **Asesu'r risg** a chanlyniadau lleol bygythiadau maleisus **yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru** a chyflawni strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth yn lleol.
- Datblygu ac ymarfer cynlluniau amlasiantaethol i sicrhau **ymateb effeithiol** i a rheoli canlyniadau ymosodiadau maleisus.
- **Cyfathrebu cyngor** i'r cyhoedd a busnesau.
- **Annog** holl sefydliadau'r Fforwm Cydnerth Lleol i **adolygu a dangos** bod ganddynt strategaethau gwytnwch seibr cyfrifol.
- Ymgorffori Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025, a elwir yn **gyfraith Martyn**, sy'n cryfhau parodrwydd, cydlynu a gwneud penderfyniadau'r FfCLIG.

Beth allwch CHI wneud

- Er bod y siawns o gael eich dal mewn digwyddiad terfysgol yn parhau i fod yn brin, mae'n bwysig **i chi fod yn barod** a gwybod pa gamau y gallwch eu cymryd.
- Gan fod y **cyhoedd a busnesau** yn aml yn darged i amrywiaeth o **ymosodiadau seibr**, fel **negeseuon e-bost sgam a dwyn hunaniaeth**, mae'n bwysig eich bod yn gwybod pa gamau y gallwch chi eu cymryd i'ch amddiffyn eich hun; gellir dod o hyd i ddolenni defnyddiol yn adran ['Paratoi a Chydnerthedd'](#) y gofrestr risg hon.

Cyngor i Unigolion, Cymunedau a Busnesau



Paratoi a Chydnerthedd

Yn ystod argyfwng, mae'n bwysig **bod yn barod**, waeth ble'r ydych chi.

Mae yna **lawer y gallwch wneud** i wneud eich hun, eich teulu a'ch busnes **yn fwy parod** ar gyfer argyfyngau neu ddigwyddiadau sy'n tarfu.

- Mae'n gwneud synnwyr i adolygu eich [Cynllun Argyfwng Cartref](#) yn rheolaidd a'i ddiweddarau lle bo angen.
- Wrth i amser fynd heibio, mae'n bosibl y byddwch yn **gwneud newidiadau** i'ch cartref neu fod amgylchiadau eich teulu yn newid.
- **Ymgwyfarwyddwch chi'ch hun â'ch teulu** ar sut i ddiffodd y cyflenwadau nwy, trydan a **dŵr** i'ch cartref.
- **Nodwch pa gyflenwadau** y byddai eu hangen arnoch pe bai'n rhaid i chi aros yn eich cartref am gyfnod hir, neu pe byddech wedi colli pŵer a dŵr.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych **yswiriant cartref digonol a chyfredol**.
- Cadwch **gopi wrth gefn o ddogfennau pwysig allweddol** fel dogfennau yswiriant a thystysgrifau geni **y gallwch chi gael mynediad atynt yn hawdd**.
- Nodwch aelodau o'ch teulu **sy'n agored i niwed** a fydd angen help ychwanegol mewn argyfwng.
- Meddyliwch am eich **cymdogion** ac a allech chi eu helpu os ydyn nhw'n agored i niwed neu'n anabl.

Byddwch yn SEIBRDDIOGEL

Er mwyn **lliniaru** ymosodiadau seibr, mae gwefannau'r [Ganolfan Ddiogelwch Seibr Genedlaethol](#) a [Stop! Think Fraud](#) yn darparu cyngor **i aelodau'r cyhoedd a busnesau** i fod yn llawer gwell wedi'u paratoi yn erbyn y rhan fwyaf o ymosodiadau seiber. Yn ychwanegol i hynny, mae **Llywodraeth Cymru** wedi cynhyrchu [cyfres o fideos](#) sy'n darparu cyngor ar adeiladu gwytnwch seibr i chi neu'ch busnes.

Mae rhai o'r awgrymiadau gorau'n cynnwys:

- **Diogelwch eich e-bost** trwy ddefnyddio cyfrinair cryf ac unigryw. Gall seibrdroseddwy'r ddefnyddio eich e-bost i gael mynediad at lawer o'ch cyfrifon personol, gan eich gadael yn agored i ladrad hunaniaeth.
- Gosodwch **ddiweddariadau meddalwedd ac Apiau bob tro**. Mae diweddariadau meddalwedd ac apiau yn cynnwys diweddariadau diogelwch hanfodol i helpu i amddiffyn eich dyfeisiau rhag seibrdroseddwy'r.
- Trowch ymlaen **Gwiriadau 2 Gam**. Argymhellir hyn i helpu i ddiogelu eich cyfrifon ar-lein.
- **Gwnewch gopi wrth gefn o'ch data**. Diogelwch eich data pwysicaf, fel eich lluniau a'ch dogfennau allweddol, trwy eu copïo wrth gefn i yriant cyfrifiadur allanol neu system storio cwmwl.
- Defnyddiwch ddull **Tri Gair ar Hap** i greu cyfrinair sy'n anodd ei gracio.

Paratoi eich Cartref

Cynllun Argyfwng Cartref

Wrth lunio eich cynllun at ei gilydd, cynhwyswch eich **teulu cyfan** i drafod yr hyn y dylid ei gynnwys; bydd hyn hefyd yn eu gwneud **yn ymwybodol** bod yna gynllun, a gwybod beth sydd angen ei wneud.

Pwyntiau [i'w hystyried yn y cynllun](#):

- Y **mathau o argyfyngau** gall ddigwydd – eira, llifogydd, colled pŵer sylweddol.
- Meddyliwch am sut mae argyfwng yn newid **arferion teuluol** – tywydd garw'n effeithio ar y daith ysgol bob dydd.
- Trefniadau megis **gofal anifeiliaid anwes** os oes angen ymgilio o'ch cartref.
- Cytunwch ar **nifer o fannau cyfarfod amgen** diogel i'ch teulu rhag ofn na allwch fynd adref. Trefnwch sut bydd eich teulu **yn cadw mewn cysylltiad** os bydd argyfwng.

Pecyn Argyfwng Cartref

Efallai y bydd rhai argyfyngau mawr yn gofyn i chi **aros yn eich cartref** am gyfnod o amser a gallech golli eich cyflenwad pŵer neu ddŵr.

Dylai'r eitemau canlynol fod ar eich [rhestr ar gyfer y pecyn](#):

- ✓ **Tortsh** batri neu weindio.
- ✓ **Banc pŵer** cludadwy.
- ✓ **Radio** batri neu weindio.
- ✓ **Batris** sbâr.
- ✓ A **pecyn cymorth cyntaf**.
- ✓ Hylif diheintio dwylo a **chadachau gwlyb**.
- ✓ Poteli **Dŵr** .
- ✓ **Bwyd** nad yw'n ddarfodus.
- ✓ **Cyflenwadau babanod**.
- ✓ **Meddyginiaeth** bersonol a theuluol.
- ✓ Rhestr o **rifau ffôn** pwysig.

Gadael eich Cartref

Bydd rhai argyfyngau, am resymau iechyd a diogelwch, yn golygu **ymgilio'r cyhoedd** wrth i'r gwasanaethau brys ymdrin â'r digwyddiad.

- ✓ **Gwrandewch ar y cyngor** a roddwyd gan y gwasanaethau brys a **gadewch mor gyflym ac yn dawel** â phosib.
- ✓ **Diffoddwch y cyflenwadau**, trydan, nwy a dŵr.
- ✓ Cymerwch eich **Pecyn Argyfwng Cartref**.
- ✓ Cymerwch eich **anifeiliaid anwes** (gyda chlodwyr neu dennyn addas).
- ✓ **Gwrandewch ar radio lleol** am gyngor a chyfarwyddiadau mewn argyfwng.
- ✓ Hysbyswch y gwasanaethau brys ar y safle **i ble yr ydych wedi mynd** a sut y gallent gysylltu â chi.
- ✓ Rhowch wybod **i berthnasau nad yw'r argyfwng yn effeithio arnynt** o'ch lleoliad, er mwyn osgoi unrhyw bryder diangen.

Dychwelyd Adref

Gwrandewch ar gyngor gan y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau am **unrhyw gamau penodol** y mae'n rhaid i chi eu dilyn pan fydd **yn ddiogel i chi ddychwelyd adref**.

Paratoi Eich Cymuned

Trosolwg

Mae'n bosib y gall, a bydd, **argyfyngau** ar raddfa eang yn digwydd. Dros y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweld digwyddiadau fel **eira trwm**, llifogydd, **methiannau cyfleustodau** ac ymosodiadau terfysgol.

Roedd **y gwersi a ddysgwyd** yn sgil y rhain ac argyfyngau eraill yn dangos bod y cymunedau hynny a oedd **yn barod** am ddigwyddiadau brys **mewn sefyllfa well** i ddelio â'r **effeithiau**.

Gall **mesurau cydnerthedd** cymunedol fod cyn lleied â dynodi **pwynt cyswllt** o fewn y Gymuned i **dderbyn rhybuddion** a negeseuon gan y Gwasanaethau Brys, **Cyfoeth Naturiol Cymru** ac Awdurdodau Lleol; pob un yn **gweithio gyda'i gilydd** i ddatblygu **Cynllun Cydnerth Cymunedol**.



Cynllun Cydnerth Lleol

Bydd ymatebwyr brys lleol bob amser yn gorfod blaenoriaethu'r rhai sydd **â'r angen mwyaf** yn ystod argyfwng, yn enwedig lle mae bywyd mewn perygl. Bydd adegau pan allwch gael eich effeithio gan argyfwng, ond nid yw eich bywyd mewn perygl uniongyrchol. Yn ystod y cyfnod hwn, trwy ddod yn fwy **gwydn**, gallwch chi a'ch cymuned ategu gwaith ymatebwyr brys lleol a lleihau effaith argyfwng ar eich cymuned yn y **tymor byr a'r tymor hir**.

Diben cydnerthedd cymunedol yw **annog pobl i gynllunio** a bod yn barod i roi **ymateb hunangymorth** ar waith mewn cymuned sy'n cael ei heffeithio gan argyfwng.

Mae **profiad** wedi dangos bod weithiau oherwydd y raddfa a/neu **natur yr argyfwng**, gall yr ymateb arferol a ddarperir gan y gwasanaethau brys a'r awdurdodau lleol cael ei **oedi**.

Ar yr achlysuron hyn mae unrhyw beth y mae'r **gymuned leol** yn gallu gwneud i **gefnogi ei gilydd** yn helpu.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cysylltwch â'ch **Cyngor Cymunedol**, yr asiantaeth wirfoddol leol ac **adran Cynllunio Brys/Argyfyngau Sifil Posibl** yr awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth ac i **gymryd rhan**.

Gallwch hefyd ofyn am y **Cynlluniau Cymdogaeth Dda** sy'n gweithredu yn eich ardal chi a sut y gallwch wirfoddoli i helpu **cymunedau**.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am [sut i gymryd rhan yn Eich Cymuned](#).



Paratoi eich Busnes

Beth yw parhad busnes?

Os ydych yn berchen ar fusnes neu sefydliad neu'n gyfrifol amdano, a ydych wedi ystyried effeithiau argyfyngau allanol?

Mae parhad busnes yn ymwneud â gwneud yn siŵr bod **eich busnes neu sefydliad** wedi **paratoi** ar gyfer unrhyw achos argyfwng.

- Sut fydddech chi'n **parhau i weithredu**?
- Ydych chi'n darparu **gwasanaeth hanfodol** i'ch cwsmeriaid?
- A fyddai'n sefyllfa **'busnes fel arfer'**?

Mae bod â **chynllun wedi'i brofi'n ymarferol** yn helpu i sicrhau bod eich busnes neu sefydliad yn dioddef yr **aflonyddwch lleiaf posibl** ac yn y pen draw **yn parhau i weithredu**.

Mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** a Grŵp **Argyfyngau Sifil Posibl** Awdurdodau Lleol Cymru hefyd wedi cynhyrchu [taflen Parhad Busnes](#) sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r rhai sydd â chyfrifoldeb neu rôl yn **rheoli eich busnes**.

Pam parhad busnes?

Heb gynllunio parhad busnes effeithiol gallai **trychineb naturiol neu un a wnaed gan ddyn** arwain at y canlynol:

- **Methiant** llwyr eich busnes
- Colli **incwm**.
- Colli **enw da** a/neu golli **cwsmeriaid**.
- **Cosbau** ariannol, cyfreithiol a rheoliadol
- **Problemau** adnoddau dynol.
- Effaith ar **yswiriant**.

Mae cynllunio parhad busnes **yr un mor bwysig i gwmnïau bach** ag ydyw i **gorfforaethau mawr**.

Gall cael cynllun parhad busnes wneud y gwahaniaeth rhwng **cadw a cholli eich busnes** pe digwyddai trychineb.

Risgiau Busnes

Os na allwch ddarparu **gwasanaethau dan contract**, ystyriwch pa fath o **gosbau** efallai y byddai'n cael eu gorfodi.

A allai eich **Gwasanaethau Critigol barhau**?

- Colled **pŵer** am 24 awr neu fwy?
- Heb gyfrifiaduron neu **delathrebu**, ac os felly am ba hyd?
- Os oedd eich adeilad wedi gorfod cael **ymgiliad** am wythnos gyda phob mynediad wedi'i wrthod?
- Sut fydddech chi'n **darparu ar gyfer** y staff sydd eu hangen i gynnal tasgau critigol?
- A oes gennych **adeilad arall** i weithio'n effeithiol ynddo?
- Beth fyddai'n digwydd pe bai chwarter eich **staff yn absennol**?

Dylai eich cynllun ateb yr holl gwestiynau uchod, **ac eraill sydd wedi'u teilwra ar gyfer eich busnes**.

Manylion Cyswilt a Gwybodaeth Bellach

Rhestrir isod yw manylion cyswilt ar gyfer rhai Ymatebwyr Categori 1 a 2 sy'n ffurfio Fforwm Cydnerth Lleol Gwent:

Ymatebwyr Categori 1

Heddlu Gwent

Os nad oes angen cymorth brys arnoch, neu os mai dim ond ymholiad cyffredinol sydd gennych, dylech ddeialu **101** (y rhif am bethau nad yw'n argyfwng).

Os oes angen cymorth brys arnoch, dylech bob amser ddeialu **999**
www.gwent.police.uk/cy-GB/

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Os nad oes angen cymorth brys arnoch, neu os mai dim ond ymholiad cyffredinol sydd gennych, dylech ddeialu **101** (y rhif nad yw'n argyfwng).

Os oes angen cymorth brys arnoch dylech bob amser ddeialu **999**
www.decymru-tan.gov.uk

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

01633 626262

Os oes angen cyngor iechyd arnoch, ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 neu'r GIG ar **111**
<https://ambiwylans.gig.cymru/>

Heddlu Trafnidiaeth Prydain

08000 405040 (nad yw'n argyfwng)
www.btp.police.uk/cy-GB/

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau Ei Fawrhydi

Ar gyfer ymholiadau nad ydynt yn rhai brys yn ymwneud â materion diogelwch morol yn ardal De Cymru, ffoniwch 01646 690909. Os oes angen cymorth brys arnoch, dylech bob amser ddeialu **999** a gofyn am 'Gwylwyr y Glannau'.

www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency

Galw Iechyd Cymru

0845 4647

<https://111.wales.nhs.uk/?locale=cy&term=A>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

01495 311556

www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/hafan/

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

01443 815588 (Oriau Swyddfa)

01443 875500 (Tu allan i Oriau Swyddfa)

www.caerffili.gov.uk

Cyngor Sir Fynwy

01633 644644 (Oriau Swyddfa)

0300 123 1055 (dim ond ar gyfer Argyfyngau y Tu Allan i Oriau Swyddfa)

www.monmouthshire.gov.uk/cy/

Cyngor Dinas Casnewydd

01633 656656

www.casnewydd.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

01495 762200

www.torfaen.gov.uk/cy/Home.aspx

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

01633 234234

<https://bipab.gig.cymru/>

Iechyd Cyhoeddus Cymru

02920 227744

www.icc.gig.cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

03000 653000

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ymatebwyr Categori 2

Grid Cenedlaethol (Trydan)

Mae ond rhaid i gwsmeriaid ddeialu **105** er mwyn rhoi gwybod am doriad pŵer

www.nationalgrid.co.uk

Wales and West Utilities Limited (Nwy)

Gollyngiad Nwy **0800 111999**

Ymholiadau Cyffredinol 0800 9122999

www.wvutilities.co.uk/cy/

Dŵr Cymru

0800 052 0130 (argyfyngau dŵr)

0800 085 3968 (llifogydd carthffosiaeth ac argyfyngau carthffosiaeth)

www.dwrcymru.com/cy-gb

Y Swyddfa Dywydd

0370 900 0100

www.metoffice.gov.uk

Network Rail

03457 114141

<https://www.networkrail.co.uk/>

Trafnidiaeth Cymru

<https://trc.cymru/>

First Great Western

07890 608043 (Negeseuon WhatsApp yn unig)

<https://www.gwr.com/help-and-support/contact-us>

Glandŵr Cymru (Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru)

03030 404040

<https://canalrivertrust.org.uk/cy/cymru>

Awdurdod Adfer Mwyngloddio

0345 762 6848

<https://www.miningremediation.co.uk/>

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

0300 003 1647

<https://www.hse.gov.uk/>

Associated British Ports

08706 096699

<https://www.abports.co.uk/>

Gwefannau Defnyddiol Eraill

Fforwm Cydnerth Lleol Gwent

<https://www.gwentprepared.org.uk/cy/cartref/>

Llywodraeth Cymru

<https://www.llyw.cymru/rhaglen-gwydnwch-cymru>

Llywodraeth y DU

www.gov.uk/government/publications/preparing-for-emergencies

Cofrestr Risg Genedlaethol Llywodraeth y DU 2025

[Cofrestr Risg Genedlaethol - rhifyn 2025](#)



Cofrestr Risg Cymunedol 2026-2027

Paratowyd ar gyfer Fforwm Cydnerth Lleol Gwent gan Grŵp Asesu Risg FfCLI Gwent.